Taflen ffeithiau
2

Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hawliau dinasyddion yr UE i gael Mynediad at Fudd-daliadau a Chymorth Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys crynodeb byr o hawliau dinasyddion yr UE i gael mynediad at fudd-daliadau a chymorth gwaith cymdeithasol fel dinasyddion yr UE yng Nghymru. Yn y daflen ffeithiau hon, mae 'dinasyddion yr UE' yn cynnwys dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â dinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), a dinasyddion y Swistir.

Yn ogystal, mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â hawliau aelodau teuluol nad ydynt yn ddinasyddion yr UE eu hunain, lle mae eu hawl i fyw yn y DU yn deillio o'u perthynas â dinesydd yr UE neu ddinesydd Prydeinig sydd wedi arfer hawliau rhyddid i symud fel gweithiwr, person hunangyflogedig, person hunangynhaliol neu fyfyriwr mewn gwlad letyol yn yr AEE yn union cyn dychwelyd i'r DU.[1]

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Brexit), mae hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru wedi newid mewn rhai ffyrdd pwysig.

Dylai dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac sy'n dymuno aros yng Nghymru, fod wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), naill ai am Statws Preswylydd Sefydlog (caniatâd amhenodol i aros) neu Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog (caniatâd cyfyngedig i aros am 5 mlynedd). Nid oedd rhaid i ddinasyddion Iwerddon a phobl â chaniatâd amhenodol i aros wneud cais. Gall dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu na wnaethant gais i'r EUSS, neu y mae eu statws preswylydd cyn-sefydlog wedi dod i ben, wneud cais o hyd os ydynt yn gymwys ac yn gallu dangos 'sail resymol' dros beidio â bod wedi gwneud cais erbyn y terfyn amser neu ers i'r terfyn amser basio.

Ni all dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am Statws Preswylydd Sefydlog na Statws Preswylydd Cyn-sefydlog. Maent yn cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr. Os dymunant aros am fwy nag ymweliad byr o hyd at chwe mis, rhaid iddynt gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Fisâu Tymor Hir yn: Browse: Work in the UK – GOV.UK (www.gov.uk).

Yn achos aelodau o deuluoedd dinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os ydynt yn meddu eisoes ar drwydded deulu'r EUSS, y gallant ddod i'r DU bellach. Nid yw trwydded deulu'r AEE, neu gherdyn preswylio biometrig a y DU, yn ddilys bellach yn y DU.

Bydd eVisa gan ddinasyddion sydd â cherdyn preswylio biometrig (BRC) ac sydd wedi cael statws o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog i'r UE.

Mae eVisa yn gofnod ar-lein o statws mewnfudo rhywun ac amodau eu caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, mae hefyd yn caniatáu i unigolyn rannu ei statws mewnfudo â thrydydd partïon pan fo angen.

1 Gall 'aelodau teuluol' gynnwys eich priod neu eich partner sifil, eich plant, eich wyrion/wyresau a'ch gorwyrion/gorwyresau dan 21 oed, eich plant dibynnol dros 21 oed, eich rhieni, eich teidiau a'ch neiniau, eich hen deidiau a hen neiniau dibynnol, a rhai partneriaid dibriod a pherthnasau dibynnol eraill (pan fo Swyddfa Gartref y DU wedi rhoi tystysgrif cofrestru 'aelod o'r teulu estynedig').

## A oes gan ddinasyddion yr UE hawl i gael mynediad at fudd-daliadau yng Nghymru?

**Efallai y bydd gan y dinasyddion yr UE a ganlyn hawl i gael mynediad at fudd-daliadau:**

### Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog

Gall dinasyddion yr UE a chanddynt Statws Preswylydd Sefydlog gael mynediad at unrhyw fudd-dal y byddant yn bodloni'r meini prawf ar ei gyfer, yn yr un modd â dinasyddion y DU.

### Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Cyn-sefydlog

Nid yw Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yn rhoi hawl i ddinasyddion yr UE gael mynediad at fudd-daliadau.[2] Fodd bynnag, gall pobl â statws Preswylydd Cyn-sefydlog gael mynediad at Gredyd Cynhwysol (a Budd-dal Plant, os oes ganddynt un neu fwy o blant dibynnol) cyn belled â'u bod yn gwneud digon o waith am dâl.

Neu efallai y bydd pobl â statws Preswylydd Cyn-sefydlog yn meddu ar 'statws gweithiwr a ddargedwir' ers iddynt roi'r gorau i weithio am dâl tra byddant:

- yn chwilio am waith newydd
- yn methu â gweithio dros dro, oherwydd problemau iechyd
- ar gyfnod sy'n cyfateb i absenoldeb mamolaeth.

Y rheswm dros hyn yw fod y 'prawf hawl i breswylio' yn dal i fod yn berthnasol i bobl â Statws Cyn-sefydlog.[3] Dan y prawf hwn, mae hefyd yn bosibl y bydd gan ddinasyddion yr UE hawl i breswylio fel aelod o deulu rhywun sy'n gweithio neu sydd â statws gweithiwr a ddargedwir.

### Dinasyddion yr UE a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 ac a gyflwynodd gais i'r EUSS

Yn achos dinasyddion yr UE a gyflwynodd gais i'r EUSS ac sy'n aros am y penderfyniad, bydd y "prawf hawl i breswylio" yn dal i fod yn berthnasol iddynt hyd nes y cânt Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog (neu tan na allant apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod eu cais mwyach).

Golyga hyn y bydd modd i ddinasyddion yr UE gael mynediad at Gredyd Cynhwysol (a Budd-dal Plant) os ydynt yn gweithio, os oes ganddynt statws gweithiwr a ddargedwir, neu os ydynt yn aelod o deulu unigolyn o'r fath.

**Nid oes gan y dinasyddion yr UE a ganlyn hawl i gael mynediad at fudd-daliadau:**

### Dinasyddion yr UE a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 ac na wnaethant gyflwyno cais i'r EUSS

Nid oes gan ddinasyddion yr UE ganiatâd i aros yn y DU mwyach ac felly nid oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Golyga hyn nad ydynt yn gymwys i gael y rhan fwyaf o'r budd-daliadau sydd ar gael yng Nghymru.

### Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021

Mae dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd a gyrhaeddodd naill ai fel Ymwelwyr Tymor Byr neu ddeiliaid Fisâu Tymor Hir ar ôl 1 Ionawr 2021, yn ddarostyngedig i'r amod nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, ac o'r herwydd ni allant gael mynediad at y rhan fwyaf o'r budd-daliadau sydd ar gael yng Nghymru. Efallai y bydd modd iddynt ofyn i'w hawdurdod lleol am help, gan gynnwys cymorth ariannol neu gymorth gyda thai.

## A oes gan ddinasyddion yr UE hawl i gael mynediad at gymorth gwaith cymdeithasol yng Nghymru?

**Holl Ddinasyddion yr UE (pa un a oes ganddynt Statws Preswylydd Sefydlog, Statws Preswylydd Cyn-sefydlog, neu heb unrhyw statws)**

Efallai y bydd gan ddinasyddion yr UE hawl i gael mynediad at fathau eraill o help, gan gynnwys cymorth ariannol a chymorth gyda thai, gan eu hawdurdod lleol:

- Os ydynt dan 18 oed ac yn byw ar eu pen eu hunain.
- Os ydynt dan 18 oed ac mewn perygl o ddioddef niwed neu gamdriniaeth, tlodi neu ddigartrefedd.
- Os ydynt wedi gadael gofal neu ar fin gadael gofal .
- Os ydynt yn gofalu am rywun arall yn eu teulu.

---

2 Os oes gennych Statws Preswylydd Cyn-sefydlog, ac os gwrthodwyd rhoi mynediad at fudd-daliadau i chi, ceisiwch gyngor arbenigol ar fudd-daliadau, er enghraifft gan Cyngor ar Bopeth.

3 Mae amgylchiadau eraill lle gallech basio'r prawf hawl i breswylio, ynghyd â budd-daliadau eraill y gallech gael mynediad atynt. Os nad yw'r rhain yn berthnasol, dylech geisio cyngor arbenigol ar fudd-daliadau, er enghraifft gan Cyngor ar Bopeth.

- Os oes ganddynt blant ac maent mewn perygl o ddioddef niwed, tlodi neu ddigartrefedd.
- Os ydynt yn oedolyn sydd mewn perygl o ddioddef niwed neu gamdriniaeth.
- Os oes arnynt angen cymorth ychwanegol oherwydd anabledd, iechyd meddwl, oedran, neu oherwydd rhyw reswm arall sy'n eu gwneud yn agored i niwed (fel beichiogrwydd).

Mae gan bawb sy'n byw yng Nghymru hawl i ofyn i'w hawdurdod lleol am help, ni waeth beth fo'u statws mudo nac ers ba hyd y maent wedi byw yma. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ystyried eu cais, a phe bai angen, i lunio asesiad ysgrifenedig ynghylch p'un a fo raid iddo ddarparu help a chymorth, ai peidio.

Os oes angen help a chymorth ar frys ar ddinasyddion yr UE – er enghraifft, os nad ydynt yn ddiogel yn y lle y maent yn aros, neu phe baent yn ddiymgeledd ac yn ddigartref – efallai y bydd yr awdurdod lleol yn darparu cymorth a llety dros dro iddynt tra cynhelir ymchwiliad i'r amgylchiadau.

Fodd bynnag, ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau, efallai y bydd hawl dinasyddion yr UE i breswylio ai peidio yn effeithio ar benderfyniad yr awdurdod lleol i ddarparu'r help a'r cymorth angenrheidiol iddynt, a sut i fynd ati i'w darparu.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad yw'r dinasyddion yn gymwys i gael cymorth ariannol neu gymorth gyda thai, rhaid i'r awdurdod gyflwyno penderfyniad ysgrifenedig iddynt. Os na fydd yr awdurdod yn cyflwyno penderfyniad ysgrifenedig, neu os anghytunir â'r penderfyniad, dylai dinasyddion yr UE chwilio am help a chyngor i'w herio.

## Newid hyd estyniad statws cyn-sefydlog i 5 mlynedd

Bydd y Swyddfa Gartref yn cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i ddeiliaid statws cyn-sefydlog o'u hawliau parhaus, yn sgil y dyfarniad.

Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw un sydd eisoes â statws Preswylydd Sefydlog neu sydd wedi dod yn ddinesydd Prydeinig yn y cyfamser.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws cyn-sefydlog?

- Nid oes angen i ddeiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newid hwn.
- Bydd yr estyniad yn cael ei adlewyrchu yn eu statws digidol a bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol i roi gwybod iddynt fod hyn wedi'i wneud. Nid oes angen iddynt gysylltu â'r Swyddfa Gartref.
- Rydym yn parhau i annog dinasyddion yr AEE ac aelodau o'u teuluoedd i wneud cais am statws Preswylydd Sefydlog o dan yr EUSS cyn gynted ag y byddant yn gymwys, i gael cadarnhad sicr o'u hawl i aros yn barhaol yn y DU. Gallwch wneud cais i newid i statws Sefydlog yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status. Mae amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd eu hangen.

## Newidiadau i wiriadau trydydd parti a gwasanaethau gwirio ar gyfer deiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi y bydd yn dileu dyddiad dod i ben statws cyn-sefydlog o'r proffiliau digidol a ddangosir i drydydd partïon yn y gwasanaethau gwirio ar-lein ar gyfer Hawl i Weithio, Hawl i Rentu (nad yw'n berthnasol i drigolion Cymru) a Gweld a Phrofi. Dim ond un gwiriad cychwynnol y bydd yn ofynnol i gyflogwyr, landlordiaid ac asiantau gosod ei gynnal. Ni fydd angen cynnal gwiriad pellach o hawl i weithio neu rentu pan fo'r unigolyn yn parhau i gael ei gyflogi ganddynt neu fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth hwnnw.

### Beth sy'n rhaid i drydydd partïon sy'n gwirio statws ei wneud nawr?

- Rhaid i gyflogwyr a landlordiaid barhau i wirio bod gan y person y maent yn ei gyflogi neu'n rhentu eiddo iddo hawl i weithio neu rentu yn y DU. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal ar bobl o bob cenedligrwydd.
- Os oes gan yr unigolyn statws Preswylydd Cyn-sefydlog, gall y cyflogwr neu'r landlord/asiant gosod gadarnhau ei hawl i weithio neu rentu drwy ddefnyddio gwasanaeth gwirio ar-lein y Swyddfa Gartref.
- Ar ôl cwblhau'r gwiriad cychwynnol o'r hawl i weithio neu rentu, ni fydd angen gwiriad dilynol pellach yn ystod y gyflogaeth neu denantiaeth.
- Ni fydd yn ofynnol bellach i awdurdodau trwyddedu sy'n cynnal "gwiriadau hawl i drwydded" yn unol â'r canllawiau i awdurdodau trwyddedu i atal gweithio anghyfreithlon yn y sector tacsis a cherbydau hurio preifat ailadrodd gwiriadau pan fo deiliad statws Cyn-sefydlog yn gwneud cais i ymestyn neu adnewyddu trwydded bresennol. Dylai awdurdodau trwyddedu gadw copïau o wiriadau a gynhelir pan wneir cais am y drwydded.
- Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar sgriniau'r gwasanaethau gwirio Hawl i Weithio, Hawl i Rentu a Gweld a Phrofi.
- Bydd canllawiau perthnasol hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws cyn-sefydlog?

Nid oes angen i ddeiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newid hwn.

## Uwchraddio statws unigolion i Statws Preswylydd Sefydlog yn Awtomatig

O 2025, bydd y Swyddfa Gartref yn dechrau uwchraddio sefyllfa unigolion â statws preswylydd cyn-sefydlog cymwys yn awtomatig i statws preswylydd sefydlog heb iddynt orfod gwneud cais am hynny. Caiff data cyrff y llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF eu defnyddio i asesu pwy sy'n gymwys. Os na all y Swyddfa Gartref uwchraddio statws unigolyn yn awtomatig, bydd yn rhoi gwybod iddo, gan ofyn iddo wneud cais yn cynnwys tystiolaeth ei fod wedi bod yn byw yn y DU am bum mlynedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y rhai sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi byw yn y DU yn barhaus am o leiaf bum mlynedd yn dal i ddewis gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ymlaen llaw.

## Rhagor o gyngor a chymorth

**Settled**

Help – Settled

O'r DU, ffoniwch 0300 123 7379. Dydd Llun – dydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc). 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

O'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 (0)203 080 0010. Dydd Llun – dydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc). 8am i 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

## Cwestiynau Cyffredin

### Gwnes gais am Statws Preswylydd Sefydlog cyn y dyddiad cau, 30 Mehefin 2021, ond nid wyf wedi cael penderfyniad eto – beth fydd yn digwydd i'm budd-daliadau?

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau, os ydych yn cael budd-daliadau, y bydd eich hawl i'w cael yn parhau hyd nes y cewch benderfyniad ynglŷn â'ch cais. Dylai hawliad am fudd-dal sydd eisoes yn bodoli barhau tra ydych yn aros am ganlyniad cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, cyhyd â'ch bod yn parhau i fod yn gymwys am y budd-dal dan sylw. Dylech siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn pryderu neu os oes angen rhagor o help arnoch gyda budd-daliadau.

### Ro'n i'n byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 ond nid wyf wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Os ydych eisoes yn derbyn budd-daliadau, bydd y Swyddfa Gartref a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eich atgoffa i wneud cais hwyr i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Os na fyddwch yn gweithredu o fewn yr amser a roddir yna mae perygl y bydd eich budd-daliadau'n cael eu hatal. Ni fyddwch yn gallu gwneud hawliadau newydd am fudd-daliadau.

### Gwnes gais am Statws Preswylydd Sefydlog ar ôl 1 Gorffennaf, beth fydd yn digwydd i'm budd-daliadau?

Mae'n bosib' na fyddwch yn colli'r budd-daliadau yr ydych yn eu cael nawr ar unwaith – mae angen ichi siarad â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted ag y gallwch i gael cyngor. Ni fyddwch yn gymwys i wneud hawliad newydd am fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.

### Rwyf wedi cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau am fy mudd-daliadau yn dweud bod angen imi wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog, rwy'n pryderu y byddaf yn colli fy mudd-daliadau

Dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted ag y gallwch. Byddant yn eich cynghori ar yr hyn y dylech ei wneud. Os oes angen cymorth arnoch i wneud cais am Statws Preswylydd Sefydlog mae cymorth am ddim ar gael gan Cyngor Ar Bopeth, a all hefyd eich cynghori ar eich budd-daliadau.

### Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dweud fy mod wedi methu'r Prawf Preswylio Fel Arfer (HRT) – beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r Prawf Preswylio Fel Arfer yn golygu bod rhaid ichi brofi bod gennych hawl i breswylio – mae hyn yn golygu dangos bod gennych hawl i hawlio budd-daliadau yn y DU.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi gwybod ichi pam y gwnaethoch fethu'r Prawf Preswylio Fel Arfer – gallai fod am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

1. Nid ydych yn 'berson cymwys' – mae hyn yn golygu nad ydych wedi dangos eich bod yn gweithio, yn chwilio am waith neu â digon o arian i gynnal eich hun.
2. Nid ydych yn aelod o deulu person cymwys – mae hyn yn golygu nad ydych wedi dangos eich bod yn perthyn i'r person cymwys, neu nad ydych wedi dangos ei fod yn berson cymwys.
3. Rydych yn 'berson y mae rhaid ei drin fel rhywun nad yw ym Mhrydain Fawr' neu'n 'berson nad yw'n preswylio fel arfer' – mae hyn yn golygu nad ydych wedi dangos mai'r DU, Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw yw'ch cartref a'ch bod yn bwriadu aros.

### Mae angen imi adael y DU am gyfnod, a fydd fy mudd-daliadau yn cael eu hatal?

Dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn gynted ag y gallwch a gofyn beth fydd effaith eich absenoldeb ar eich budd-dal.

### Rwyf nawr yn ddi-waith ond does gen i ddim tystiolaeth fy mod wedi bod yn gweithio, a fydd budd-daliadau'n cael eu gwrthod imi?

Efallai y byddwch yn dal i allu profi eich bod wedi bod yn gweithio – hyd yn oed os na chawsoch gontract cyflogaeth neu slipiau cyflog.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch ar eich ffurflen hawlio budd-dal ynglŷn â'r gwaith yr ydych wedi'i wneud, er enghraifft:

- i bwy y buoch yn gweithio
- eich tasgau a'ch cyfrifoldebau
- pryd y gwnaethoch ddechrau'r swydd
- pa mor aml oeddech chi'n gweithio
- faint oeddech yn ei ennill.

Os ydych wedi bod yn rhoi'ch cyflog mewn cyfrif banc, dylech gynnwys copïau o'ch cyfriflen banc gyda'ch cais am fudd-dal. Bydd hyn yn helpu i brofi'ch bod wedi bod yn cael cyflog rheolaidd.

### Pa fudd-daliadau y gallaf eu cael?

Bydd pa fudd-daliadau yr ydych yn gymwys i'w derbyn yn dibynnu ar eich statws mewnfudo. Dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau neu Cyngor Ar Bopeth i gael cymorth gyda hyn.

© Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51440, ISBN digidol 978-1-83715-325-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg